

# Dogfen Ymgynghori

## Cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas

28 Medi 2023 – 9 Tachwedd 2023



Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn  
<https://www.caerffili.gov.uk//cymunedau-dysgu-cynaliadwy>

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.



<b>TABL CYNNWYS</b>	
<b>Rhagarweiniad</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Rhagair</li> <li>➤ Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?</li> <li>➤ Beth rydym yn cynnig ei wneud?</li> </ul>	
<b>Y Broses Ymgynghori</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?</li> <li>➤ Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?</li> <li>➤ Safbwyntiau plant am y cynnig</li> </ul>	
<b>Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwybodaeth Gefndir</li> <li>➤ Cynllunio Lleoedd Ysgol</li> <li>➤ Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol</li> <li>➤ Strategaeth Datgarboneiddio</li> </ul>	
<b>Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir</li> <li>➤ Trefniadau'r Dalgylch</li> <li>➤ Effaith ar Ysgolion Eraill</li> <li>➤ Amharu ar ddisgyblion</li> <li>➤ Darpariaeth Uwchradd</li> </ul>	
<b>Beth fydd effaith y cynnig?</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg</li> <li>➤ Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol</li> <li>➤ Materion yn ymwneud â'r Staff</li> <li>➤ Materion Ariannol</li> <li>➤ Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg</li> <li>➤ Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr</li> <li>➤ Cydraddoldebau</li> <li>➤ Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol</li> <li>➤ Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned</li> </ul>	
<b>Beth yw manteision y cynnig?</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Manteision, Anfanteision, Risgiau</li> <li>➤ Fframwaith Opsiynau</li> <li>➤ Opsiwn a Ffefrir ac Opsiynau sydd wedi cael eu Diystyru</li> </ul>	
<b>Y Camau Nesaf</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol</li> <li>➤ Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau</li> <li>➤ Dweud eich dweud</li> </ul>	



**Helen Owen-Williams**

Pennaeth

Ysgol Fabanod Cwm Glas,

Llanbradach

Llythyr wedi ei gyhoeddi ar 30  
Mehafin 2023

# RHAGAIR

## Llythyr oddi wrth Ysgol Fabanod Cwm Glas

*Annwyl Rieni/Gofalwyr,*

*Gyda thristwch mawr yr ysgrifennaf atoch heddiw i rannu rhywfaint o newyddion y gwn yn ddi-os y bydd yn peri gofid a thrallod i'n cymuned gyfan.*

*Dros nifer o flynyddoedd, rydym wedi gweld llai a llai o blant yn mynychu Ysgol Fabanod Cwm Glas. Mae llawer o rieni wedi nodi hyn ac yn anffodus, mae nifer y plant y rhagwelir y byddant yn mynychu yn y dyfodol yn isel iawn. Ynghyd â chyfradd geni isel a chostau uwch, rydym mewn sefyllfa anodd iawn wrth gwrdd â chostau rhedeg yr ysgol.*

*Cyfarfu'r llywodraethwyr eto'n ddiweddar i edrych ar niferoedd disgyblion rhagamcanol a rhagolygon cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagolygon ariannol yn peri pryder mawr gan nad yw Llywodraethwyr yn gallu cytuno ar gyllideb gytbwys. Felly, gwahoddodd y Llywodraethwyr swyddogion o'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg) i gyfarfod i'w hysbysu bod Llywodraethwyr yn teimlo nad yw'r ysgol bellach yn hyfyw. O'r herwydd, mae'r Llywodraethwyr wedi gofyn i'r Awdurdod Lleol fwrw ymlaen ag ymgynghoriad llawn fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru i gau Ysgol Babanod Cwm Glas ar ddiwedd y flwyddyn academaidd nesaf (Gorffennaf 2024). Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod Tymor yr Hydref.*

*Byddaf i, ynghyd â'r Llywodraethwyr ar gael i drafod unrhyw faterion neu bryderon sydd gennych o 2pm yn y Brif Neuadd yn ddiweddarach heddiw (dydd Gwener 30 Mehefin). Rwy'n gwerthfawrogi mai byr rybudd yw hwn, felly yn ogystal â'r cyfle hwn heddiw, byddaf ar gael trwy gydol yr wythnos nesaf.*

*Fel y gallwch ddychmygu, mae staff wedi'u difrodi. Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas wedi darparu addysg a gofal rhagorol i dros fil o blant ers agor ei drysau ym 1977. Mae gan rai staff a llawer o rieni gysylltiadau â'r ysgol ar ôl mynychu eu hunain a bydd y posibilrwydd o gau yn golled fawr i'n cymuned yn Llanbradach. Fodd bynnag, fel y mae rhieni/gofalwyr yn ymwybodol, mae'r ysgol yn rhannu ei dalgylch gydag Ysgol Gynradd Coedybrain ac yn amodol ar ddewis y rhieni, mae plant yn trosglwyddo yno yng Nghyfnod Allweddol 2. Felly, os bydd y cau yn mynd rhagddo, cynigir y bydd lle i'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Coed-y-brain o'r Cyfnod Sylfaen. Mae lleoedd digonol ar gyfer disgyblion presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol Gynradd Coed-y-brain.*

*Mae'n hollbwysig eich bod chi fel rhieni yn teimlo'n dawel eich meddwl na fydd unrhyw effaith ar ansawdd yr addysg a'r gofal a ddarparwn yn y flwyddyn i ddod. Mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi ymrwymo i barhau i roi'r dechrau gorau posibl i'n plant i'w taith addysgiadol. Mae llywodraethwyr wedi cytuno na fydd lefelau staffio yn newid o fis Medi 2023 i fis Gorffennaf 2024 a chan y bydd llai o blant yn yr ysgol y flwyddyn nesaf nag eleni, mae mwy o botensial i gefnogi gweithio mewn grwpiau llai a chymorth 1 i 1. Rydym wedi ymrwymo i lenwi'r flwyddyn gyda phrofiadau anhygoel gan gynnwys arbenigwyr yn y celfyddydau creadigol a llawer o deithiau i gyffroi ac ysbrydoli ein plant.*

*Drwy gydol y broses ymgynghori, rwyf am roi sicrwydd ichi y bydd safonau uchel yr ysgolion yn parhau'n gyson, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi bob cam o'r broses hon. Mawr obeithiwn y byddwch yn parhau i gefnogi ein hysgol dros y flwyddyn i ddod a chaniatáu i'ch plentyn elwa o'r addysgu a'r gofal rhagorol y mae'r staff yn eu darparu.*



# RHAGARWEINIAD

## Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerffili a gall fod o ddiddordeb penodol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu, neu sy'n disgwyl mynychu, safleoedd presennol Ysgol Fabanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed Y Brain.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i'r cyfleuster addysg cynradd hwn yn y Fwrdeistref a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.

## Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn dymuno gwneud 'newid rheoledig' i ysgol a gynhelir yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas yn gostwng, a rhagwelir y bydd yn gostwng ymhellach, cafodd cyfarfod ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol. Cytunwyd yn y cyfarfod na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Rydym ni'n cynnig:

- **Cau Ysgol Fabanod Cwm Glas**

Mae disgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas ar hyn o bryd yn pontio i Ysgol Coed Y Brain ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio pontio'r disgyblion Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau darpariaeth ysgol gynradd gynhwysol i bob oedran o fis Medi 2024.

Bydd hyn yn arwain at gau Ysgol Fabanod Cwm Glas.



# Y BROSES YMGYNGHORI

## Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?

Drwy fodel [TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd](#), mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - [Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma](#)

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae rhwymedigaeth arnom i hysbysu'r canlynol o'n cynigion mewn llythyr neu dros e-bost:

Tabl 1: Rhestr o Ymgynghoreion	
Disgyblion/Cynghorau Disgyblion *	Gweinidogion Cymru
Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalywyr holl ddisgyblion*	Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol*
Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu*	Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos	Cynghorau Cymuned a Thref lleol
Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth	Estyn
Y Rhwydwaith Rhieni	Y Fforwm Addysg Gymraeg
Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol	Consortium De Ddwyrain Cymru (EAS)
Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru	Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol

*\*ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

### **Noder:**

- Caiff yr holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.
- Caiff yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer adolygiad cychwynol a chymeradwyaeth, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol i barhau i'r cam nesaf.
- Bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn eu fformat gwreiddiol fel rhan o'r broses benderfynu.
- Ni chaiff unrhyw ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn hytrach cânt eu cofnodi fel sylwadau anffafriol.
- Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi, sef ail gam y cynnig, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynnig.

## Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth i wneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored wrth gwblhau proses ymgynghori mewn cysylltiad â chynnig ar gyfer ysgol.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad Effaith Integredig

Darperir gwybodaeth ar wefan y Cyngor a chaiff yr holl ddogfennaeth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Ceir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r prosesau a'r amserlenni yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn adran ['Y Camau Nesaf'](#).

## Safbwyntiau plant am y cynnig

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhoi llais i bobl ifanc yn golygu eu cynnwys fel cyfranogwyr yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiadau addysgol ac fel myfyrwyr a bod angen iddynt fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a dylid sicrhau bod pwys priodol yn cael ei roi ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl ifanc wella'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â rhannu safbwyntiau a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Mae hyn hefyd yn amlwg yn adroddiad Estyn 'Cyfranogiad disgyblion: canllaw arferion gorau', sy'n dangos sut y gellir cyflawni buddiannau i ddisgyblion a helpu ysgolion i wella drwy alluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses.

Bydd Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, wrth gyflwyno unrhyw gynnydd. Caiff fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori sy'n addas i blant ei chynhyrchu a chaiff unrhyw adborth gan ddisgyblion a Chynghorau Ysgol ei gynnwys yn y ddogfennaeth a anfonir ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

## PAM EIN BOD YN CYNNIG Y NEWIDIADAU HYN?

### Gwybodaeth Gefndir

Oherwydd bod niferoedd y disgyblion yn gostwng yn Ysgol Fabanod Cwm Glas, ac fe rhagwelir y bydd hyn yn lleihau ymhellach, cafodd cyfarfod ei drefnu gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol gyda chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol i'r dyfodol.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cytunwyd na allai'r ysgol bellach gadw cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly penderfynwyd cau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad ac offer i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai prif ddiben unrhyw ysgol yw darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er lles gorau'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal. Mae dewisiadau amgen rhesymol i gau, megis cydweithio, ffedereiddio a gwneud defnydd llawnach o'r adeilad ysgol presennol fel adnodd cymunedol wedi'u hystyried ond nid ydynt yn opsiynau hyfyw na chynaliadwy.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Fabanod Cwm Glas yn rhannu dalgylch ag Ysgol Gynradd Coed-y-Brain lle mae disgyblion yn trosglwyddo iddi ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Saesneg, wedi'u lleoli yn Llanbradach.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio pontio'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, i gyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed cynhwysol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd hyn yn arwain at gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024.

## **Cynllunio lleoedd ysgol**

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn darparu digon o leoedd mewn ysgolion i ddisgyblion o bob oedran er mwyn darparu addysg o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffydd yn ogystal â bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

*Gwybodaeth yn gywir o fis Medi 2022*

### **➤ Ysgol Fabanod Cwm Glas**

- Ar hyn o bryd mae gan y safle le ar gyfer 55 o ddisgyblion + 10 meithrin
- Y nifer derbyn cyhoeddedig yw 19
- Ar hyn o bryd mae 34 o ddisgyblion ar y gofrestr (31 Cyfwerth ag Amser Llawn)
- Ar hyn o bryd mae 50.88% o leoedd gweigion
- Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas yn bwydo Ysgol Gynradd Coed-y-Brain ar lefel Cyfnod Allweddol 2

### **➤ Ysgol Gynradd Coed-y-Brain**

- Ar hyn o bryd mae gan y safle le ar gyfer 242 o ddisgyblion + 28 meithrin
- Y nifer derbyn cyhoeddedig ar lefel Babanod yw 28 ac ar lefel Iau yw 39
- Ar hyn o bryd mae 174 o ddisgyblion ar y gofrestr (169 Cyfwerth ag Amser Llawn)
- Ar hyn o bryd mae 32.23% o leoedd gweigion
- Mae Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yn bwydo Ysgol Lewis i Ferched ac Ysgol Lewis Pengam ar lefel uwchradd

**Tabl 2: Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu**

Blwyddyn	Ysgol Fabanod Cwm Glas		Ysgol Gynradd Coed Y Brain	
	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Dosbarth Meithrin	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Dosbarth Meithrin
Presennol	34	28	174	164
2024	35	24	168	155
2025	42	30	161	149
2026	37	29	159	148
2027	40	31	132	121
2028	39	29	132	121
2029	36	27	132	121
2030	37	28	127	116

\*Mae'r ffigurau yn ystyried nifer amcanestynedig y disgyblion o ddatblygiadau adeiladu newydd yn y dalgylch ac mae ffigurau Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yn cynnwys y disgyblion a ragwelir yn dod drodd o Ysgol Fabanod Cwm Glas ym Mlwyddyn 3.


## Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol

### Ysgol Fabanod Cwm Glas:


Wedi'i leoli yn Llanbradach, gyda ffin safle wedi'i amgylchynu gan eiddo preswyl ar bob ochr. Mae gan yr ysgol arwynebedd o tua 0.5 Hectar, ac mae'n cynnwys 2 brif strwythur a gofod allanol a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr o C+, gradd Addasrwydd o B a chategori Tystysgrif Arddangos Ynni o D.

Y safle presennol



Cynllun o'r safle





**Tabl 3: Gwybodaeth am Safle Ysgol Fabanod Cwm Glas**

<b>Dynodiad Cynllun CAD</b>	<b>Cyfleusterau a Ddarperir</b>
Prif Adeilad 28	4 ystafell ddosbarth, 1 Neuadd Ymgynnull, Llyfrgell, Ystafell Staff, Man Tawel, Cegin, toiledau a storfeydd
Adeilad Allanol 29	Adeilad Symudol Sengl – 1 ystafell ddosbarth, toiled, storfa

Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas yn ysgol fwydo naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain. Wrth ystyried y cyflwr a'r addasrwydd, mae'r ddwy ysgol yn cyfateb yn gyfartal, gydag Ysgol Gynradd Coed-y-Brain â sgôr ynni uwch (mwy effeithlon) fel safle categori C. Mae Ysgol Gynradd Coed y Brain, sydd hefyd wedi'i lleoli yn Llanbradach, yn safle mwy o faint, gydag adeiladau ychwanegol yn eu lle, yn ymestyn dros 0.8 Hectar, gyda choetir ar hyd cwrtil Dwyreiniol yr ysgol.

Yn seiliedig ar y galw a ragwelir, byddai cyfluniad presennol Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yn gallu darparu'n llawn ar gyfer y garfan bresennol o ddisgyblion ac yn y dyfodol o Ysgol Fabanod Cwm Glas yn ei chyfanrwydd gydag ychydig iawn o fuddsoddiad.

### **Strategaeth Datgarboneiddio**

Mae gan Ysgol Gynradd Coed y Brain sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) uwch o 'C' (A yw'r mwyaf effeithlon) o'i chymharu ag Ysgol Fabanod Cwm Glas sydd ar hyn o bryd yn D.

Ar yr amod bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo a chau Ysgol Fabanod Cwm Glas, byddai adeilad a safle'r ysgol bresennol wedyn yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oes eu hangen mwyach ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres lem o brofion i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli. Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, ac mae'r ddwy ysgol wedi cyfyngu ar y defnydd cymunedol presennol, fodd bynnag byddwn yn ymgysylltu ag unrhyw grwpiau cymunedol a nodwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae safle Ysgol Gynradd Coed-y-Brain 1.1 milltir o safle presennol Ysgol Fabanod Cwm Glas, a all arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref. Fodd bynnag mae'r ddwy ysgol wedi eu lleoli o fewn pentref Llanbradach, yn rhannu'r un dalgylch ac mae llwybrau teithio diogel/llesol eisoes wedi eu sefydlu yn yr ardal. Byddai disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas eisoes yn symud ymlaen yn naturiol i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain ar lefnod Cyfnod Allweddol 2 felly bydd unrhyw effaith Carbon a ragwelir sy'n gysylltiedig â theithio fel rhan o'r cynnig hwn yn fach iawn.

## **SUT Y BYDD HYN YN EFFEITHIO AR YSGOLION ERAILL?**

Caiff newidiadau mewn un rhan o'r sector Addysg yn y Sir effaith ehangach ar ysgolion eraill a'u disgyblion. Wrth ystyried pob cynnig, caiff y dull o sicrhau bod y rhwydwaith addysg yn

gynaliadwy ac yn cael ei gwella yn ogystal â'r ardal ehangach eu hystyried. Rhoddir ystyriaeth briodol i effaith y cynnig hwn a chaiff ymgynghoriad ei gynnal â phob ysgol y mae'n effeithio arni.

## **Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd gofal plant fel elfen hanfodol o'r agenda gwrthdodi yn ogystal â darparu amgylchedd cyfoethog, diogel a meithringar lle gall plant a phobl ifanc y fwrdeistref sirol ffynnu a chael hwyl. O'r herwydd, mae gan y Cyngor faes Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar sy'n ymroddedig i reoli pob agwedd ar y farchnad gofal plant mewn modd cydgysylltiedig.


Bob 5 mlynedd mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ledled Cymru gynnal Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, sy'n dwyn ynghyd ystod o wahanol ddata a gwybodaeth i ddatblygu darlun o'r farchnad gofal plant bresennol ac i nodi a oes unrhyw fylchau yn y cyflenwad.

Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer o wahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant yn ardal Llanbradach ym Masn Caerffili gan gynnwys Meithrinfa Ddydd, gwarchodwyr plant a chylchoedd chwarae cofleidiol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu bod clwb cofleidiol a chlwb ar ôl ysgol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Fabanod Cwm Glas wedi cau oherwydd niferoedd isel sydd angen y gwasanaeth hwn. Oherwydd ei leoliad, mae teuluoedd Llanbradach hefyd yn gallu cael mynediad hawdd at ofal plant yn Nhref Caerffili ac Ystrad Mynach. Yn ogystal, mae Cylch Meithrin newydd yn cael ei ddatblygu yng nghanol y pentref i gefnogi teuluoedd sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth cylch chwarae cyfrwng Cymraeg. Mae rhannau o Lanbradach wedi'u cynnwys yn ddiweddar wrth ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ac mae'r feithrinfa ddydd a'r gwarchodwr plant lleol wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar i ddarparu'r lleoedd hyn.

Wrth symud ymlaen, ein ffocws ar gyfer y 5 mlynedd nesaf fydd monitro'r galw am leoedd gofal plant ychwanegol Dechrau'n Deg wrth i'r rhaglen barhau i dyfu a deall y lefelau newydd o alw am leoedd gofal plant cofleidiol / clybiau ar ôl ysgol. Byddwn yn parhau i dyfu'r sector mewn meysydd o angen a nodwyd yn enwedig mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ac i sicrhau bod gennym ddigon o leoedd i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg, ehangu Dechrau'n Deg, ac Addysg Blynyddoedd Cynnar, tra'n rhoi dewis i rieni.

Yng ngoleuni hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y sefydliadau ymbarél gofal plant a gyda'r ysgolion, i sicrhau ein bod yn deall y galw yn gywir a bod darparwyr gofal plant o safon yn gallu gwneud cais agored a thryloyw i gefnogi'r gwaith o ddarparu unrhyw ddarpariaeth gofal plant sydd ei hangen.

## Trefniadau'r Dalgylch



Mae'r Awdurdod yn credu bod y cynnig hwn yn cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ymhellach ar gyfer y dyfodol

Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas ac Ysgol Gynradd Coed-y-Brain wedi'u lleoli yn Llanbradach yn ardal Basn Caerffili.

Mae'r proffil ward sy'n seiliedig ar wybodaeth cyfrifiad 2011 yn nodi bod

6.3% o boblogaeth y ward rhwng 0 a 4 oed

5.6% o boblogaeth y ward rhwng 5 a 9 oed

Mae Ysgol Fabanod Cwm Glas yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r ddwy ysgol yn rhannu'r un dalgylch ar hyn o bryd. Cynigir na fyddai'r dalgylch yn newid fel rhan o'r cynnig hwn.

## Effaith ar ysgolion eraill

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o sicrhau bod unrhyw gynigion ysgol yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ysgolion cyfagos.

Mae 3 Ysgol Gynradd Gymunedol o fewn radiws 2.6 milltir o Ysgol Fabanod Cwm Glas, ac eithrio Ysgol Gynradd Coed-y-Brain, sef Ysgol Gynradd Ystrad Mynach (Cyfrwng Saesneg), Ysgol Gymraeg Bro Allta (Cyfrwng Cymraeg) ac Ysgol Gynradd Maes-y-cwmwr (Cyfrwng Saesneg).

**Tabl 4: Nifer Gwirioneddol a Rhagamcanol mewn Presenoldeb (Ysgolion Cyfagos)**

	Ysgol Gynradd Ystrad Mynach	Ysgol Gymraeg Bro Allta	Ysgol Gynradd Maes-y-cwmwr
<b>Nifer y lleoedd</b>	420	308	158
<b>Derbyniadau</b>	60	44	22
<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer ar y Gofrestr (ac eithrio Meithrin)</b>	<b>Nifer ar y Gofrestr (ac eithrio Meithrin)</b>	<b>Nifer ar y Gofrestr (ac eithrio Meithrin)</b>
2023	405	260	143
2024	396	258	132
2025	389	258	131
2026	381	269	123
2027	376	266	120
2028	365	261	113
2029	357	255	108
2030	346	263	108

Ar hyn o bryd mae'r disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn amodol ar ddewis y rhieni, i gyflwyno darpariaeth ysgol gynradd bob oed

cynhwysol o fis Medi 2024. Rhagwelir felly mai ychydig iawn o effaith a gaiff y cynnig ar yr ysgol gyfagos sydd y tu allan i'r trefniant presennol hwn.

## **Amharu ar ddisgyblion**

Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion presennol o Ysgol Fabanod Cwm Glas i Ysgol Gynradd Coed y Brain a throsglwyddo unrhyw ddisgyblion cyfnod sylfaen o'r cychwyn cyntaf o fis Medi 2024, yn amodol ar ddewis y rhieni. Bydd Ysgol Fabanod Cwm Glas bresennol yn cau, gan arwain at ddarparu un ysgol gynradd pob oed cynhwysol ar gyfer dalgyllch Llanbradach. Trwy ddefnyddio safle presennol Ysgol Gynradd Coed y Brain a'r cynnig i wneud y newidiadau perthnasol i gyd-fynd â dechrau'r flwyddyn academaidd, bydd ychydig iawn o amharu ar weithrediadau dyddiol y carfannau ysgol presennol, bydd disgyblion a theuluoedd yn cael eu cefnogi drwy'r broses drawsblannu.

## **Darpariaeth Uwchradd**

Mae disgyblion o Ysgol Fabanod Cwm Glas ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae Ysgol Gynradd Coed y Brain yn bwydo Ysgol Lewis Pengam ac Ysgol Lewis i Ferched. O'r herwydd, ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ganfyddedig ar y trefniant presennol ar lefel Uwchradd.

# **BETH FYDD EFFAITH Y CYNNIG?**

## **Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg**

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghaerffili. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ceir copïau o adroddiadau llawn yr ysgolion unigol ar [wefan Estyn](#).

Mae'n rhaid i bob ysgol ddarparu cwricwlwm sydd â chynnwys eang a chytbwys ac sy'n berthnasol i anghenion pob dysgwr. Dylai taith ddysgu'r plentyn fod yn ddi-dor drwy gydol ei amser yn yr ysgol, gan adeiladu ar brofiadau, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth iddo wneud cynnydd.

Bydd datblygu un ddarpariaeth ysgol gynradd bob oed ar gyfer dalgyllch Llanbradach trwy drosglwyddo disgyblion yn uniongyrchol i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain, yn sicrhau y caiff profiadau eu gwella ymhellach, gan alluogi safonau addysg uwch fyth i gael eu darparu. Bydd yn galluogi safbwynt ysgol gyfan a dull cyson mewn perthynas â dysgu ac addysgu, cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawniad, drwy un weledigaeth sydd ag ethos cyson a fydd o fudd i'r disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr.

Mewn ysgol gynradd, mae'r holl blant – iau a hŷn – yn cael cyfleoedd i rannu canlyniadau eu dysgu a datblygu dealltwriaeth ddatblygedig o'r amrywiaeth o gyflawniadau personol ar draws y cyfnodau allweddol.

Mae ysgol gynradd yn darparu amgylchedd lle gall plant weithio a chwarae gyda'i gilydd am gyfnod hwy, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd. Dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, datrys problemau a datblygu cydberthnasau rhwng holl aelodau'r gymuned.

**Tabl 5: Buddiannau Darpariaeth Ysgol Gynradd**

Cwricwlwm	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Un weledigaeth ac ethos cyson er budd y disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr</li> <li>• Parhad a chynnydd dysgu</li> <li>• Parhad profiad a darpariaeth</li> <li>• Un tîm staff a rheoli yn arwain ac yn rheoli'r cwricwlwm, addysgu a dysgu a datblygiad cymdeithasol mewn ffordd unedig ac wedi'i arwain gan un Cynllun Gwella Ysgol</li> <li>• Mynediad at ystod fwy o ddoniau ac arbenigedd staff gan fod nifer mwy o staff a chyfleoedd cyfoethogi ehangach sy'n rhan annatod o'r cwricwlwm ehangach</li> <li>• Defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol ac adnoddau addysgol</li> </ul>
Addysgegol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadaeth addas (gyda setiau unigol o bolisiâu a gweithdrefnau dysgu ac addysgu) ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol</li> <li>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o gyswllt addysgol â phlant iau a hŷn a'r cyfle i rannu deilliannau dysgu ar draws y cyfnodau allweddol</li> <li>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o ddatblygiad cymdeithasol, er enghraifft, drwy roi rhywfaint o gyfrifoldeb bugeiliol dros y plant iau i'r disgyblion hŷn</li> <li>• Gwybodaeth well am y staff, trefniadaeth a'r cwricwlwm</li> </ul>
Adeiladau ac ystafelloedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhwyddineb cynnal a chadw'r safle</li> <li>• Mwy o bosibiliadau ar gyfer defnyddio'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn ffordd effeithiol, effeithlon a hyblyg a'r gallu i gynnal a chadw'r safle'n fwy effeithlon</li> </ul>
Cymuned	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o allu i gefnogi'r agenda ysgolion estynedig a datblygu ysgolion "o fore gwyn tan nos" sy'n cynnig gofal plant yn ystod amser brechwast a chlybiau ar ôl ysgol mewn ffordd fwy cydlynol i rieni/gofalwyr</li> <li>• Canolbwynt ar gyfer y gymuned</li> </ul>
Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd i fagu profiad proffesiynol ehangach drwy weithio gydag ystod ehangach o oedrannau</li> <li>• Cyfle i'r staff feithrin cydberthnasau gyda'r disgyblion, rhieni a theuluoedd dros gyfnod hwy</li> <li>• Defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon na fyddai'n bosibl mewn sefydliadau llai a threfnu adnoddau yn unol â blaenoriaethau lleol yn well</li> <li>• Seilwaith gweinyddol symlach a chryfach sy'n osgoi dyblygu adnoddau</li> <li>• Y gallu i fodloni'r agenda dysgu wedi'i bersonoli sydd wrth wraidd y Strategaeth Gynradd a Diwygio'r Gweithlu</li> </ul>



## **Trefniadau Llywodraethu**

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol. Bydd Corff Llywodraethol Ysgol Fabanod Cwm Glas yn cael ei ddiddymu pan fydd ar gau.

## **Materion yn ymwneud â'r Staff**

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r ddwy ysgol wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen a bydd Tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r holl bartïon perthnasol i sicrhau y glynir at brosesau a bod cefnogaeth yn cael ei darparu yn ôl yr angen.

## **Materion Ariannol**

The projected pupil numbers and resultant financial outlook for the school provides a significant challenge to the ability of the Head and School Governors to agree a balanced budget to maintain the school and an appropriate staffing level which has led to a request to the local authority to consider closing the school from July 2024.

O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae cyllidebau ysgolion unigol yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla ariannu wedi'i chytuno'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Rhaid i ysgolion allu dangos drwy gynllun gweithredu ariannol y bydd yr ysgol yn mynd ati i sicrhau cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu wedi cydnabod bod Ysgol Fabanod Cwm Glas yn wynebu diffyg ariannol sylweddol gyda disgwyl i nifer y disgyblion leihau ymhellach.

Reasonable alternatives to closure, such as reduction in the number of classes, collaboration, federation and colocation were considered by the Head Teacher and Governing Body in partnership with the Local Authority, but deemed not viable or sustainable.

## **Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu cyfleoedd i ddarpariaeth gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg lle y bo'n bosibl, fodd bynnag, mae'r cynnig yn ceisio gwneud newidiadau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Cyfrwng Saesneg a rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith fach iawn ar y cynnig Cyfrwng Cymraeg presennol sydd ar gael ar draws y Fwrdeistref.

## **Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr**

Mae'r cynnig yn ceisio trosglwyddo'r disgyblion o Ysgol Fabanod Cwm Glas i Ysgol Gynradd Coed y Brain, yn amodol ar ddewis y rhieni, yn y Cyfnod Sylfaen.

Y pellter rhwng y ddwy ysgol o fewn Llanbradach ac sy'n rhannu'r un dalgylch yw 1.1 milltir. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae disgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2. Felly, mae effaith debygol trefniadau teithio gwahanol o ganlyniad i'r cynnig yn ddibwys.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ysgolion agosaf eraill:

**Tabl 6: Ysgolion Amgen sydd Agosaf yn Ddaeryddol**

Ysgol Agosaf Arall	Cyfrwng	Cyflwr	Pellter / Teithio
Ysgol Gynradd Ystrad Mynach	Saesneg	C+	2.2 milltir
Ysgol Gynradd Bro Allta	Cymraeg	C+	2.2 milltir
Ysgol Gynradd Maesycwmmmer	Saesneg	C+	2.6 milltir
Ysgol Gynradd Plasyfelin	Saesneg	C+	2.9 milltir
Ysgol Babanod Hendre	Saesneg	C+	2.9 milltir
Ysgol Iau Hendre	Saesneg	B	3.0 milltir

Nod y Cyngor bob amser yw darparu system drafnidiaeth sy'n ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae nifer o lwybrau 'Teithio Diogel', cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, eisoes wedi'u sefydlu megis goleuadau a llwybrau troed dynodedig.

Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Mae pob disgybl yn cael ei asesu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol gan y Mesur. Disgwylir i'r sefyllfa bresennol gael ei chynnal oherwydd dim ond 1.1 milltir o safle presennol yr ysgol mae Ysgol Gynradd Coed-y-brain, a byddai disgyblion wedi symud ymlaen i'r ysgol hon yn naturiol ar gyfer blynyddoedd iau Cyfnod Allweddol 2.

## Cydraddoldeb

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau a rhyngddynt.

Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i ddangos sut y mae'r cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi ystyriaeth i gydraddoldeb o dan Deddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn ffordd o sicrhau bod y polisiâu, yr arferion, y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n llywio ein gwaith yn rhoi mynediad cyfartal i bawb i'n holl wasanaethau.

Mae asesiadau o effaith yn canolbwyntio ar p'un a yw'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud pethau (megis arferion gwaith neu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu neu'r rheini sy'n darparu ein gwasanaethau. Maent yn ein helpu i gynllunio i leihau neu gael gwared ar effaith negyddol – er enghraifft drwy wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y mae grŵp penodol yn derbyn gwasanaeth (er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu osod ramp mewn adeilad ac ati).

Daeth dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a nodir yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 31 Mawrth 2021. Caiff templed Asesiad Effaith Integredig Cyngor Caerffili ei ddefnyddio i gynnal Asesiadau cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg a gaiff eu hadolygu ymhellach yng ngoleuni unrhyw elfennau ychwanegol y tynnir sylw atynt drwy'r prosesau ymgynghori statudol wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn llywio gwaith y Cyngor i sicrhau y ceir mynediad cyfartal i'r holl wasanaethau ac yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud

penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi'i gwblhau. Mae'r ddogfen hon ar gael fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y wefan.

## **Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anabledau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r angen i sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r mathau, y swm a'r ansawdd cywir o ddarpariaeth wedi cael eu hystyried er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Mae gan Ysgol Gynradd Coed-y-Brain Ganolfan Adnoddau Arbennig sefydledig sy'n gweithredu o'r safle.

## **Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned**

### **Darpariaeth Gymunedol a Defnydd y Gymuned**

Bydd y cynnig yn adeiladu ar ymrwymiad y Cyngor i gynaliadwyedd a lleihau Carbon, gan gwmpasu'r amgylchedd adeiledig a defnyddio ein hasedau ysgol presennol yn ardal Llanbradach mewn ffordd sy'n cyfoethogi bywyd beunyddiol disgyblion a chefnogi cydlyniant cymunedol ehangach, gan gadw disgyblion o fewn eu dalgyrch presennol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth i'r cynnig a chau Ysgol Fabanod Cwm Glas, byddai adeilad a safle'r ysgol bresennol wedyn yn cael eu dosbarthu fel gwarged i anghenion addysgol ac yn dod yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Byddai defnydd o'r adeilad a'r safle yn y dyfodol wedyn yn destun cyfres lem o brofion i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu.

Mae ymarfer casglu data cychwynnol wedi'i gynnal, ac mae'r ddwy ysgol wedi cyfyngu ar y defnydd cymunedol presennol, fodd bynnag byddwn yn ymgysylltu ag unrhyw grwpiau cymunedol a nodwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.

### **Cynhwysiant Digidol**

Mae gan Gyngor Caerffili ddyheadau clir i bob ysgol ddod yn ganolfan ddysgu gymunedol fel rhan o'i Raglen Hwb. All schools within the borough are required to meet the Education Digital Standard which includes community Wi-Fi.

Yn ogystal â darparu'r seilwaith corfforol, mae tîm Addysg Oedolion y Cyngor wedi datblygu cynlluniau gweithredol cadarn i gyflawni Fframwaith Strategol Digidol 2030 ac ehangu mynediad at weithgareddau dysgu ar adeg ac mewn lle sy'n hyblyg i anghenion y gymuned, wedi'u rhoi ar waith yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum egwyddor gweithio. Mae mynediad ehangach at ddysgu a chyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu ar gyfer cymunedau eisoes ar waith, fel nad yw dysgwyr yn cael eu cyfyngu gan eu lleoliad corfforol a chael rhagor o hyblygrwydd i ddysgu mewn amser, lle ac iaith sy'n addas i'w dewisiadau ac argaeledd o amgylch ymrwymadau cartref a gwaith. Byddai hyn yn parhau i gael ei gefnogi yn Ysgol Gynradd Coed-y-Brain.

### **Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae yn yr Awyr Agored**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid hybu datblygiad corfforol, egni a brwdfrydedd plant dros symud yn gyson drwy eu helpu i ddefnyddio eu cyrff yn effeithiol, annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheolaeth a chydysymud, a datblygu sgiliau echddygol a thrafod ym mhob Maes Dysgu, dan do ac yn yr awyr agored.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Coed-y-Brain wedi sefydlu darpariaeth dysgu a chwarae awyr agored a all gynnwys y niferoedd ychwanegol a ragwelir o ganlyniad i'r cynnig hwn.

### **Budd i'r Gymuned**

Ein dyhead ni ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Awdurdod Lleol.



## **BETH YW MANTEISION Y CYNNIG?**

### **Manteision**

Mae prif fanteision y cynnig yn cynnwys:

- Addysg barhaus mewn ysgol gynradd
- Llai o aflonyddwch i deuluoedd gan y bydd eu plant yn mynychu un safle ysgol e.e. ar hyn o bryd mae gan frodyr a chwiorydd ar draws y ddau safle ddiwrnodau HMS, diwrnodau chwaraeon, nosweithiau rhieni ac ati ar wahân.
- Yn gyfarwydd â staff o'r Cyfnod Sylfaen tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 2
- Gostyngiad yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw
- Lleihad sylweddol yn nifer y lleoedd gwag yn y ddwy ysgol

Arbedion ariannol cyffredinol yn gysylltiedig â gweithrediadau ysgol

### **Anfanteision**

Mae prif anfanteision y cynllun yn cynnwys:

- Efallai bydd amseroedd teithio yn newid ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu ar eu hagosrwydd at leoliad newydd yr ysgol
- Bydd cyfnod pontio ar gyfer y disgyblion, a bydd angen ystyried cymorth priodol ar gyfer 'ymsefydlu'
- Bydd angen dadgomisiynu safle presennol yr ysgol a chael gwared arno yn unol â chanllawiau priodol

## Risgiau

Bydd risgiau'n cael eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risg, er gan fod disgyblion yn trosglwyddo ar hyn o bryd o Ysgol Fabanod Cwm Glas i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2 a bod y cynnig yn ceisio pontio yn y Cyfnod Sylfaen, mae prosesau eisoes wedi'u sefydlu.

## Fframwaith Opsiynau

Dilynwyd dull Fframwaith Opsiynau i nodi'r nifer ehangaf posibl o opsiynau dichonadwy, gan ganolbwyntio ar y dimensiynau allweddol canlynol: cwmpas, datrysiad gwasanaeth, darparu gwasanaeth, gweithredu a chyllid.

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried a'u sgorio: -

<b>Tabl 7: Arfarnu'r Rhestr Hir o Opsiynau</b>	
<b>Opsiwn</b>	<b>Opsiynau o'r Rhestr Hir: Disgrifiad</b>
<b>Opsiwn 1 *</b>	<b>Gwneud Dim:</b> Dim newid i drefniadau presennol yr ysgol
<b>Opsiwn 2</b>	<b>Gwneud y Lleiafswm:</b> Lleihau lefelau staffio yn Ysgol Fabanod Cwm Glas trwy ostwng i 1 dosbarth
<b>Opsiwn 3</b>	<b>Gwaith Canolraddol:</b> Cydleoli gwasanaethau yn Ysgol Fabanod Cwm Glas i wrthbwysu costau cynnal yr ysgol
<b>Opsiwn 4</b>	<b>Gwaith Mawr:</b> Cydweithio/Ffedereiddio Ysgol Fabanod Cwm Glas ag ysgol arall yn yr ardal
<b>Opsiwn 5</b>	<b>Gwneud yr Uchafswm:</b> Pontio disgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas i Ysgol Coed-y-Brain ar Lefel Sylfaen a chau Ysgol Fabanod Cwm Glas

## Opsiwn a Ffeirir ac Opsiynau Amgen sydd wedi cael eu Diystyru

Fel y nodwyd yn y Gwerthusiad Opsiynau uchod, mae rhestr o'r dewisiadau amgen rhesymol i gau wedi'u nodi; ac mae asesiad wedi'l gynnal o'u heffaith tebygol ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg, ar y gymuned ac ar drefniadau teithio yn ogystal â chyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer yr ysgol.

- Nid yw Opsiwn 1 yn opsiwn dichonadwy ac felly mae wedi'i ddiystyru. O dan Reoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010, mae cyllidebau ysgolion unigol yn cael eu pennu gan ddefnyddio fformiwla ariannu y cytunwyd arni'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Rhaid i ysgolion allu dangos drwy gynllun gweithredu ariannol y bydd yr ysgol yn gweithio i sicrhau cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol wedi cydnabod bod Ysgol Cwm Glas yn wynebu diffyg ariannol sylweddol a rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng ymhellach wrth symud ymlaen. Fel y cyfryw, nid yw'r ysgol yn gynaliadwy mwyach.



- Nid yw Opsiwn 2 yn opsiwn dichonadwy ac felly mae wedi'i ddiystyru. O dan Reoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013, mae terfyn maint dosbarthiadau statudol o uchafswm o 30 disgybl i un athro cymwysedig wedi'i gymhwyso i bob dosbarth babanod yng Nghymru ers mis Medi 2001. Er y rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion yn gostwng o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol, byddai hyn yn dal i fod yn fwy na 30 o ddisgyblion ac felly ni ellir darparu ar gyfer yr opsiwn i leihau lefel staffio a maint dosbarthiadau.
- Mae Opsiwn 3 yn opsiwn ymarferol, ond mae wedi'i ddiystyru. Ceisiwyd cydleoli eisoes i gefnogi'r ysgol trwy ychwanegu darpariaeth gofal plant, fodd bynnag mae'r darparwr wedi rhoi rhybudd y bydd yn tynnu'n ôl o'r ysgol. Yn ogystal, archwiliwyd gweithrediad yr ysgol fel 'canolfan gymunedol' ehangach i ddarparu ar gyfer gwasanaethau cymunedol, fodd bynnag, mae gan Lanbradach Ganolfan Gymunedol, Llyfrgell a Chanolfan Feddygol weithredol, felly nid oes unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth amgen addas wedi'i nodi yng nghyffiniau'r ysgol nad yw eisoes wedi'i lleoli mewn man arall.

Mae Opsiwn 4 yn opsiwn ymarferol, ond mae wedi'i ddiystyru. Mae cydweithio/ffedereiddio, mewn egwyddor yn galluogi cadw'r ysgol o safbwynt addysgol, fodd bynnag, dim ond yn erbyn Cyflog Pennaeth unigol y gwneir arbedion. Er nad oes rhagderfyniad wedi'i wneud wrth ystyried yr opsiwn hwn ynghylch pa Bennaeth o ba ysgol (Ysgol Fabanod Cwm Glas neu'r Ysgol Ffederal) y byddai'n cael ei gollu, mae arbediad cyfartalog wedi'i ddefnyddio at ddibenion costio ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol, felly nid yw'r ysgol yn gynaliadwy mwyach.

- **Opsiwn 5 yw'r opsiwn a ffefrir ac mae'n sail i'r cynnig hwn.** Oherwydd y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Fabanod Cwm Glas y rhagwelir y byddant yn lleihau ymhellach a hyfywedd ariannol yr ysgol yn y dyfodol, yn ogystal â'r trefniadau presennol lle mae disgyblion Ysgol Fabanod Cwm Glas eisoes yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coed-y-Brain yng Nghyfnod Allweddol 2, mae Ysgol Gynradd Coed-y-Brain wedi'i nodi fel darpariaeth ysgol amgen addas gyda chapasiti digonol a llety o ansawdd cyfatebol i fodloni'r galw presennol a'r galw a ragwelir ar gyfer disgyblion yn yr un categori iaith a gyda'r effaith leiaf bosibl ar deithio. Er y byddai'r cynnig hwn yn arwain at gau safle Ysgol Fabanod Cwm Glas, bydd disgyblion, rhieni a'r gymuned leol yn cael cynnig cymorth ar gyfer y cyfnod pontio pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r opsiwn hwn..

## Y CAMAU NESAF

### Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

#### Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Iau 28 Medi 2023

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i ein tudalennau gwe [Cymunedau Dysgu Cynaliadwy](#)

Mae Fersiwn Gryno Syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i Blant a Phobl Ifanc. Mae'r fersiwn hon a'r fersiwn lawn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gellir hefyd gofyn am gopiâu wedi'u hargraffu.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 neu [YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk](mailto:YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk) fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

## **Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Iau 9 Tachwedd 2023**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

## **Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Cabinet Caerffili yn derbyn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd yn nodi'r cynnig a'r holl sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar y cam hwn, gall yr aelodau benderfynu p'un a ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn rhoi rhybudd o 28 diwrnod i dderbyn gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn golygu y bydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod.

Yna, bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu p'un a gaiff y cynnig ei roi ar waith ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny. Gall pawb weld yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

## **Dweud eich dweud**

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb wedi'i hargraffu a'i dychwelyd trwy'r post
- Anfonwch eich e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## **Mae eich sylwadau'n bwysig**

Llenwch yr holiadur a'i dychwelyd drwy'r post neu dros e-bost i:

## Ymateb i Ymgynghoriad 'Cwm Glas'

d/o Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy  
Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Tŷ Penallta  
Parc Tredomen  
Ystrad Mynach  
CF82 7PG

[Ysgolion21ainGarif@caerffili.gov.uk](mailto:Ysgolion21ainGarif@caerffili.gov.uk)



Noder mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, y ffurflen ymateb neu dros e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.